

disg fflopi'r llenor

Ofni colli gwaith llenorion yn

Mae llyfrgelloedd dros y byd yn pryderu y bydd gwaith llenorion o bwys yn mynd ar goll wrth i dechnoleg

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ceisio dod o hyd i ffordd o ddiogelu gwaith llenorion at y dyfodol. Gan nad yw cyfrifiaduron mor ddibynadwy â phapur ac inc, mae angen sicrhau bod cofnodion, llythyron a nodiadau ymchwil yn cael eu cadw'n ddiogel.

Dros y ddwy flynedd nesaf, fe fydd swyddog yn Archif Lenyddol y Llyfrgell yn dysgu am arferion awduron Cymru er mwyn sicrhau nad yw dogfennau pwysig ddim yn mynd ar goll.

"Un her amlwg yw e-bost a gohebiaeth," meddai Ifor ap Dafydd sydd wedi bod yn holi ugain o awduron am eu harferion cyfrifiadurol. "Er bod pawb yn prisio e-bost yn uchel, yn meddwl ei fod e'n bwysig iawn, dim ond un o 16 oedd yn gwneud

rhywbeth i'w arbed e. I gymharu, er enghraifft, â llythyrau milwyr o'r Rhyfel Mawr, maen nhw'n dal wedi para.

"Un peth sy'n gallu digwydd gydag e-bost yw bod pobol yn ymddiried yn y gwasanaeth, gyda Google neu beth bynnag, neu feddalwedd y cyfrif ei hun."

Mae'r broblem yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol gydag ymchwil tebyg yn digwydd mewn llyfrgelloedd ar draws y byd - Digital Lives yn y Llyfrgell Brydeinig ac Interparoles 2 yng Nghanada. Y pryder yw y bydd gwaith a chofnodion pwysig yn mynd ar goll wrth i dechnoleg newid yn gyson.

"Mae rhai pobol yn cadw eu gwaith ar ddisg fflopi," meddai Ifor ap Dafydd. "Falle na fydd gyriant

fflopi beth bynnag. Efallai ni fyddai'r peth yna mewn can mlynedd. Mae siawns go dda y bydd hi'n anymarferol mynd atyn nhw."

Un ateb sy'n cael ei drafod gan archifwyr yw bod llenorion yn gwneud ewyllys digidol - gan roi cyfarwyddyd ar sut y gall pobol gyrraedd at eu ffolderi digidol wedi iddyn nhw farw.

Ac erbyn hyn mae pobol yn archifo eu gwybodaeth eu hunain ar y we - trwy roi disgrifiadau o dan luniau ar wefannau ar Flickr - sy'n cael ei alw'n 'meta data' mewn llyfrgelloedd.

"Mae pobol yn gallu rhoi gwybodaeth am eu hunain a'r byd yn haws nag erioed ac yn tagio meta data," meddai Ifor ap Dafydd. "Mae pobol yn dogfennu, yn archifo eu bywydau eu hunain, yn newid eu hagwedd at sefydliadau archifo."



Annwyl Kate@Caergors.com

Yn 1992, cyhoeddodd y Llyfrgell Genedlaethol gasgliad o llythyron yn ymestyn dros 60 mlynedd rhwng y llenorion mawr Saunders Lewis a Kate Roberts.

Tybed a fyddai'r ddau wedi cadw pob e-bost yr un mor saff?

"Roedd Saunders Lewis wedi chwynnu'n llym," meddai Ifor ap Dafydd. "Falle y byddai Saunders yn gwasgu'r botwm 'dileu'."

"Falle y byddai hi wedi cadw'i e-byst, yn siŵr mwy na Saunders Lewis."

Pryder arall yw bod olion llawysgrifen llenorion yn prinhaus. Yn rhai o llythyrau Saunders Lewis mae cryndod y llawysgrifen yn awgrymu cryn dipyn am ei gyflwr corfforol ar y pryd.

"Dw i ddim yn credu bod y rhamant wedi mynd," meddai Ifor ap Dafydd, "ond bod y cyfrwng wedi newid. Mae rhai'n rhamantu deunyddiau cyfrifiadurol. Fel gweld hen deipiaduron, neu efallai bod pobol yn teimlo'n gryf am ryw ffont neu'i gilydd."

Dibynnu ar y co' bach



Yn ôl y bardd a'r cynhyrchydd teledu Ifor ap Glyn, mae cynllun y Llyfrgell yn tynnu sylw llenorion at broblem all godi yn y dyfodol.

"Os ydi Ed Thomas yn un pegwn, a'r pegwn arall yw rhywun sy'n trystio'n llwyr ar gof ei gyfrifiadur... dw i'n ochri i'r pen a phapur, yn rhywle yn y canol. Dw i'n tueddu i facio pethau i fyny ar bapur."

"Yn y bôn, dw i'n dipyn bach o Luddite, ac ond yn cofleidio technoleg newydd i'r graddau angenrheidiol. Mi fydda' i'n gwneud y rhan fwyaf ar gyfrifiadur yn y gwaith a llawer o hwnnw, a gwaith fy hun, ar liniadur. Ffordd eitha' effeithiol yn hytrach nag e-bostio pethau rhwng y lap-top a'r gwaith yw dibynnu'n gorfforol ar gof bach (cof USB)."

"Dw i wedi cyfranogi o'r cyfoeth oedd gyda'r

Llyfrgell wedi'u cadw... yn enwedig o ran hanes y Rhyfel Mawr. Mae llawer o'r archif hynny wedi ei ddyfyngu. Mewn gwirionedd roedd y llythyrau wedi diflannu, ond wedi'u 'cadw' mewn dogfennau papurau newydd. Roedd y ffynhonnell gynradd wedi diflannu a'u bacio fyny mewn print.


"Faint ohonom ni'n fase'n cadw copïau o ohebiaeth? Mae busnesau'n gwneud, ond at ei gilydd dyw pobol ddim yn gwneud."

Ac mae'r cynhyrchydd teledu yn cydnabod bod technoleg wedi newid ei ffordd o weithio'n llwyr.

"Y we ydi'r peth sydd wedi trawsffurfio pethau, lle'r oedd rhywun gynt yn ddibynnol ar lyfrgelloedd a ffôn ar gyfer gwaith teledu, a oedd yn broses gadwynog. Mae rhywun yn hiraethu am elfennau o hynny..."

yr oes ddigidol

newid ...



Cyfrifiadur yn "anathema"

Dyw'r dramodydd Ed Thomas erioed wedi defnyddio cyfrifiadur i sgrifennu.

A dyw'r gyfres deledu ddiweddar Pen Talar, y mae wedi'i hysgrifennu ar y cyd â Siôn Eirian i'w gwmi Fiction Factory, ddim yn wahanol.

"Fe ddechreuais i off yn sgrifennu *long-hand* wedyn chi'n mynd yn gyfarwydd â'ch llais eich hun, eich ysgrifen eich hun, eich proses eich hun. Mae'r garej yn llawn papurau.

"Mae rhywun yn ei roi e ar gyfrifiadur yn y gwaith. Mae fy ysgrifen i'n uffernol ond maen nhw jyst abowt yn ei ddeall e," meddai'r awdur



sy'n teimlo bod mwy o ryddid wrth ddefnyddio papur a phen na dibynnu ar drydan neu fatri.

"Rwy'n gwneud cwpl o ddarlithoedd i fyfyrwyr - ro'n nhw'n meddwl mod i *back in the ark*.

"Nid fy mod i'n Luddite - mae gen i ffôn, iPhone. Ond

mae fy mywyd i'n ddigon prysur heb Twitter-o amdano fe. Fi yw'r *odd one out*. Ond rwy'n ddigon hapus."

Er ei fod yn defnyddio'r We ar ei gyfrifiadur gwaith, dyw e byth yn darllen negeseuon e-bost ar wahân i'r gwaith.

"Rwy wedi gwneud deg drama, a dwy *screen-play* i *House of America*. Pe tasen nhw'n werth rhywbeth, mae'r *originals* i gyd yna. Ar wahân i fom neu dân, dw i'n ocê! Mae gen i *rough draft* o bob yffarn. Tasen i byth hyd yn oed cysidrowisio compiwter i sgwennu. Mae e'n anathema i fi."

"Rwy'n 48 - *I'm not gonna change now!*"

Awgrymiadau i sgrifennwyr

- Penderfynwch pa ddogfennau sy'n bwysig i'w harbed; a gwnewch gopiâu.
- Cadwch gopiâu eraill, mewn cyfrwng ac mewn man arall, rhag tân neu ladrad.
- Chwynnu dogfennau ar ddiwedd gwaith a thwtio ffolderi. Yn syml, rhoi enw ystyrion i ddogfen.
- Defnyddiwch gyfrinair i ddiogelu mynediad at eich cyfrifiadur.
- Defnyddiwch raglen gwrth-feirws, a chofiwch ei diweddarau yn rheolaidd.
- Ystyriwch dynged eich archif ddigidol: i ble, neu at bwy, fydd hi'n mynd yn y dyfodol?

Pram swnllyd Guto Puw



Bydd un o brif gyfansoddwyr Cymru yn cyflwyno darn o gerddoriaeth i bram babi mewn gwyl ym Mangor yr wythnos hon.

"Mae pram yn gwneud dipyn o synau reit ddifyr," meddai Guto Puw, y cyfansoddwr o Lanuwchllyn sy'n dad i ddwy ferch fach. "Ro'n i am archwilio'r pram ei hun, sy'n wrthrych pwysig i fabanod a phlant ifanc, ac archwilio'r byd seinyddol ynghylch y gwrthrych."

Ar gyfer 'Cerddoriaeth i Bramiau', mae'r cerddor, sy'n ddarlithydd yn Adran Gerdd Prifysgol Bangor, wedi gosod nifer o deganau sain ar ddau bram. Ymhlith yr 'offerynnau' y mae'r 'boom whackers' - peipiau amryliw sy'n creu nodau gwahanol wrth eu taro ar lawr, yn dibynnu ar eu maint.

Mae'r cyfansoddwr wedi llwyddo i gael cyfres i greu wythfed - *octave* - gyfan. Bydd dau offerynnwr taro yn perfformio'r darn, yn gyfrifol am bram yr un, ac yn symud o gwmpas.

"Fel gwthio eich babi mewn pram," meddai, "mae o yn fodd o gario rhywun o un lle i'r llall. Y pram fel gwrthrych fydd yn cario'r offeryn taro, a chynnal y cyfansoddiad."

"Gan fy mod wedi cael dwy o ferched bach, mae rhywun yn ymwybodol o ddatblygiad cerddorol plentyn."

Cafodd ei sbarduno hefyd ar ôl mynd â'i ferched i sesiynau cerddorol i fabanod yn Galeri Caernarfon.

"Yn ddiarwybod maen nhw'n cael eu trochi mewn elfennau cerddorol." meddai Guto Puw, "Mi fydda' i'n defnyddio rhai o'r syniadau creadigol yn y sesiynau a'u rhoi yn y cyfansoddiad."

"Dw i'n cael fy symbylu o'm profiad o chwarae piano gyda'r fechan. Ro'n i'n meddwl base'n braf gwneud cyfansoddiad sy'n clymu'r ddau beth."

Bydd 'Cerddoriaeth i Bramiau' yn cael ei berfformio ar ddiwedd sesiynau o'r fath ym Maesgeirchen ym Mangor fore Sadwrn, ac yng Nghapel Penrallt yn y prynhawn.

Gwyl gerdd yn cloi cyfnod o gyfansoddi

Mae darn o waith Guto Puw hefyd yn rhan o ddegfed Wyl Cerddoriaeth Newydd Bangor. Ymhlith yr uchafbwyntiau y mae cyngerdd y pianydd jazz, Gwilym Simcock, a pherfformiad y pianydd clasurol Iwan Llewelyn-Jones.

Nos Wener nesaf, bydd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn perfformio gwaith newydd gan Pwyll ap Siôn, Andrew Lewis, Guto Puw ac Adrian Williams yn Neuadd Prichard-Jones.

Hwn fydd y darn olaf y bydd Guto Puw wedi'i gyfansoddi yn rhinwedd ei swydd dair blynedd yn Gyfansoddwr Preswyl Cerddorfa'r BBC.

"Mae wedi bod yn gyfle anhygoel," meddai'r cerddor. "Dydi cyfleoedd fel'na ddim yn dod yn aml iawn i unrhyw gyfansoddwr. Mae'n rhoi sicrwydd bod proffil rhywun yn codi'n uchel iawn."

Mae ganddo dipyn ar y gweill - sgrifennu concerto ar y ffidil i gerddorfa lawn a chylch o ganeuon i'r bariton Jeremy Huw Williams.

Gyda grant o gynllun Cymru Greadigol, bydd yn ymchwilio i opera fel cyfrwng o Monteverdi hyd heddiw. Ar ôl y gwaith, bydd yn sgrifennu opera newydd sbon yn cyfuno sawl techneg operatig y canrifoedd, ar y cyd â'r bardd Gwyneth Glyn.

"Rhwng popeth mae yna ddigon o bethau," meddai'r cyfansoddwr.

- Cerddoriaeth Newydd i Fabanod, Eglwys y Groes ac Ysgol Glan Cegin, Maesgeirchen, Bangor (10-12pm); Capel Penrallt (2-4pm)

